

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd
Caernarfon) i Gyffordd 9
(Cyfnewidfa Treborth), Bangor,
Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2022

The A55 Trunk Road (Junction 10
(Caernarfon Road Interchange) to
Junction 9 (Treborth Interchange),
Bangor, Gwynedd) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists
and Pedestrians) Order 2022

Gwnaed 16 Medi 2022
Yn dod i rym 24 Medi 2022

Made 16 September 2022
Coming into force 24 September 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Medi 2022.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 10 (Caernarfon Road Interchange) to Junction 9 (Treborth Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2022 and this Order comes into force on 24 September 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 24 Medi 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwysu

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Medi 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 24 September 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 16 September 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).
2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).
3. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians

1. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road of Junction 10 (Caernarfon Road Interchange) to the nosing of the westbound entry slip road of Junction 9 (Treborth Interchange).
2. The length of the westbound entry slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).
3. The length of the westbound exit slip road at Junction 9 (Treborth Interchange).